Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Gyfun Trefynwy
## Hen Heol Dixton
## Trefynwy
## Sir Fynwy
## NP25 3YT

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 22/01/2016**

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol gymysg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 oed a gynhelir gan Gyngor Sir Fynwy yw Ysgol Gyfun Trefynwy. Mae 1,639 o ddisgyblion ar y gofrestr, a 352 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Adeg yr arolygiad diwethaf, roedd 1,643 o ddisgyblion ar y gofrestr, a 359 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Daw disgyblion o dref Trefynwy ac ardaloedd gwledig cyfagos Sir Fynwy, Swydd Henffordd a Swydd Gaerloyw. Mae tua 26% o ddisgyblion yn byw yn Lloegr.

Mae tua 7.8% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 17.4%. Mae canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gostwng rhywfaint o 8.8% yn 2010-2011. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae gan un deg pump y cant o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.4%. Mae gan lai na 2% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae naw deg saith y cant o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae tua 2% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae llai nag 1% o ddisgyblion yn siarad iaith heblaw Saesneg fel eu mamiaith.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2012. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Trefynwy yn 2015-2016 yw £4,105. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd yn Sir Fynwy yw £4,653 a'r isafswm yw £4,105. Mae Ysgol Gyfun Trefynwy yn y pedwerydd safle allan o'r pedair ysgol uwchradd o ran y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Bernir bod perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae tuedd o wella mewn safonau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn y ddwy flynedd ddiwethaf
- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ym mwyafrif y gwersi
- Mae disgyblion yn cyflawni safonau uchel mewn siarad, darllen a gwrando
- Mae disgyblion yn cyflawni lefelau uchel o bresenoldeb ac ymddygiad
- Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn paratoi amrywiaeth o dasgau diddorol a phriodol i gynnal diddordeb disgyblion
- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i fodloni anghenion disgyblion ar draws pob cyfnod allweddol
- Mae'r ysgol wedi datblygu cymuned ddysgu gynhwysol a pharchus iawn

Fodd bynnag:

- Nid yw perfformiad mewn rhai dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion yn y teulu neu gydag ysgolion tebyg ar sail cymhwyster disgyblion i gael prydau ysgol am ddim
- Nid yw bechgyn yn cyflawni cystal â merched mewn llawer o feysydd yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4
- Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ac nid ydynt yn cyflawni cystal ag y dylent
- Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn dibynnu ar eu hathrawon yn ormodol, ac nid ydynt yn datblygu eu gallu i weithio'n annibynnol
- Ceir diffyg rhediad a her mewn lleiafrif o wersi
- Mae gwaith ysgrifenedig ac ansawdd y cyflwyno gan leiafrif o ddisgyblion yn wan

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae gan yr uwch dîm arweinyddiaeth weledigaeth strategol glir, sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar wella ansawdd a safonau
- Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gytuno ar flaenoriaethau'r ysgol, a'u cyflawni
- Mae gan yr ysgol systemau rheoli perfformiad effeithiol ac mae wedi gwella atebolrwydd ar bob lefel
- Mae'r corff llywodraethol yn gwybod beth yw cryfderau a gwendidau'r ysgol yn

dda ac mae'n herio'r ysgol a'r staff yn barhaus

- Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu systematig, effeithiol i nodi meysydd o danberfformio a meysydd i'w gwella ac mae wedi gwneud cynnydd o ran gwella safonau yn y ddwy flynedd ddiwethaf
- Mae arweinwyr a rheolwyr wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i wella perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn sylweddol
- Mae gan yr ysgol gynlluniau a thargedau gwella clir yn seiliedig ar hunanarfarnu effeithiol

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig perfformiad bechgyn a disgyblion mwy abl

A2 Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu

A3 Gwella ansawdd a chysondeb adroddiadau hunanarfarnu adrannol

A4 Gwneud yn siŵr bod strategaeth yr ysgol ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn cael ei rhoi ar waith yn gyson ar draws pob pwnc

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, bu gwelliant graddol mewn llawer o ddangosyddion perfformiad yng nghyfnod allweddol 4. Mewn llawer o ddangosyddion, mae disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig o gyfnodau allweddol blaenorol. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg wedi amrywio, ond wedi dangos gwelliant cyffredinol dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar sail lefelau cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim yn 2014 a 2015, ond yn y 50% isaf ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol. Er bod perfformiad yn y dangosydd hwn ychydig islaw deilliannau wedi'u modelu yn 2014-2015, mae wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg yn y teulu ar gyfer tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A*-A neu fwy ar lefel TGAU wedi amrywio, ond wedi aros islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ar gyfer y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gwella'n gyson dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar sail lefelau cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer tair o'r pedair blynedd ddiwethaf, ond mae wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r perfformiad hwn wedi gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg, ac mae wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2014-2015, y perfformiad oedd y gorau yn y teulu o ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, llwyddodd pob disgybl i gyflawni trothwy lefel 1, a llwyddodd bron pob disgybl i gyflawni trothwy lefel 2. Mae bron pob disgybl yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn ar ddiwedd Blwyddyn 11.

Yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru, llwyddodd llawer o ddisgyblion i gyflawni'r Diploma Canolraddol yn 2014-2015. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae bron pob disgybl yn ennill cymhwyster lefel 2 mewn Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif, TGCh a Datrys Problemau.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond roedd islaw perfformiad cyfartalog y teulu o ysgolion ar gyfer dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd hwn wedi rhagori ar ddeilliannau wedi'u modelu ar gyfer tair o'r pedair blynedd ddiwethaf ac mae'n agos at ddeilliannau wedi'u modelu yn 2014-2015. Yn 2014-2015, mae perfformiad wedi bod gyfwerth â chyfartaledd y teulu ac wedi gosod yr ysgol yn gydradd bumed yn y teulu.

Yng nghyfnod allweddol 3, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched mewn Saesneg a gwyddoniaeth, ac mae eu perfformiad gryn dipyn yn waeth mewn ysgrifennu. Mae bechgyn yn perfformio'n well na merched mewn mathemateg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyflawniad bechgyn a merched yn debyg mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ond mae bechgyn yn perfformio gryn dipyn yn waeth na merched mewn Saesneg. Mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion yn llai na'r gwahaniaeth yn y teulu o ysgolion.

Ym Mlwyddyn 13, mae canran y disgyblion sy'n ennill graddau A*-A ac A*-C mewn Safon Uwch neu gyfwerth wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf ac wedi aros islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. At ei gilydd, mae'r sgôr pwyntiau ehangach a gyflawnwyd gan ddisgyblion wedi dangos cynnydd cymedrol dros dair o'r pedair blynedd ddiwethaf, ond mae'n parhau i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael yn cyflawni deilliannau tebyg yn nhrothwy lefel 2 a throthwy lefel 1. Fodd bynnag, nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd. Yng nghyfnod allweddol 3, nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mhob un o'r dangosyddion pwysig.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda. Yn 2014-2015, cyflawnodd pob un o'r disgyblion hyn drothwy lefel 1 a chyflawnodd y rhan fwyaf ohonynt drothwy lefel 2.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn galw dysgu blaenorol i gof yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn canolbwyntio ar eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn y dosbarth, ac maent yn dibynnu'n ormodol ar eu hathrawon am gymorth. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu medrau dysgu annibynnol. Nid yw disgyblion mwy abl a thalentog bob amser yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud yn y dosbarth oherwydd y diffyg her yn eu gwaith. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio'n rhy hawdd ac yn tarfu ar eu cynnydd eu hunain a chynnydd eu cyfoedion.

Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn glir mewn gwersi ac yn ateb cwestiynau'n hyderus gan ddefnyddio terminoleg gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn ofalus. Maent yn gwrando'n dda ar eu cyfoedion pan fyddant yn siarad â'r dosbarth ac mewn gwaith pâr a gwaith grŵp. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn dda ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu, gan gynnwys cwestiynau arholiadau, taflenni gwaith a gwerslyfrau.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda ac yn defnyddio gramadeg a sillafu cywir. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion gallu canol a gallu is yn cyflwyno'u gwaith yn ddigon destlus ac maent yn gwneud gormod o gamgymeriadau yn eu

hatalnodi a'u gramadeg.  Mae disgyblion mwy abl yn datblygu medrau ysgrifennu'n dda ac yn creu testunau estynedig o ansawdd uchel.  Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig bechgyn, yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n ddigon da.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda ac yn eu cymhwyso'n briodol ar draws y cwricwlwm.  Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhifau yn hyderus, gan gynnwys degolion, ffracsiynau a rhifau negyddol.  Mae llawer o ddisgyblion yn casglu a chofnodi data o ystod o ffynonellau ac yn defnyddio'r data hwn yn briodol i dynnu llun graffiau a siartiau.  Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio'r graffiau hyn yn llwyddiannus i nodi patrymau a thueddiadau yn y data a llunio casgliadau synhwyrol.

Mae bron pob disgybl yn astudio Cymraeg ail iaith hyd at lefel TGAU.  Llwyddodd bron pob un o'r disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer y cwrs llawn i ennill graddau A*-C, a llwyddodd tua hanner y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer y cwrs byr i ennill graddau A*-C y llynedd.  Mae medrau darllen ac ysgrifennu llawer o ddisgyblion wedi'u datblygu'n dda.  Fodd bynnag, anaml y bydd disgyblion yn defnyddio'u Cymraeg heblaw mewn gwersi Cymraeg.

**Lles:  Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barchus a chyfrifol.  Maent yn foesgar a chwrtais ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a gydag oedolion.  Mae llawer o ddisgyblion yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at fywyd ysgol.  Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, mae ymddygiad gwael gan leiafrif o ddisgyblion yn tarfu ar y dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda â'r achosion prin iawn o fwlio.  Mae llawer ohonynt yn teimlo bod rhywun yn yr ysgol sy'n gallu eu helpu os byddant yn cael unrhyw anawsterau.

Mae cyfraddau presenoldeb uchel yn nodwedd gref yn yr ysgol.  Mae'r rhain wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail lefelau cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim am y ddwy flynedd ddiwethaf, ac maent wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion yn 2014-2015.  Mae presenoldeb wedi bod uwchlaw'r deilliannau wedi'u modelu am y pedair blynedd ddiwethaf.  Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella, ac mae ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg yn 2014-2015.  Cynyddodd absenoldebau parhaus ychydig yn 2015, ond mae'n parhau'n isel o gymharu â ffigurau cenedlaethol, ac mae wedi lleihau'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol a gynigir gan yr ysgol.  Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gref o sut i gadw'n iach a diogel.  Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, ac mae dros 90% o ddisgyblion yn ennill cymhwyster lefel 2 mewn addysg gorfforol erbyn diwedd Blwyddyn 11.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at fywyd yr ysgol a'r gymuned leol. Er enghraifft, mae disgyblion yn gwirfoddoli fel mentoriaid cyfoedion a phartneriaid dysgu i helpu disgyblion iau. Maent yn trefnu digwyddiadau elusennol trwy gydol y flwyddyn. Mae disgyblion hŷn yn gweithio'n effeithiol gyda disgyblion o ysgolion lleol eraill i helpu i drefnu digwyddiadau fel Gŵyl Lenyddol Trefynwy.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldeb ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at wneud penderfyniadau yn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfranogiad gweithredol mewn grwpiau dosbarth a blwyddyn, y cyngor ysgol a'r grŵp eco. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn dda yn y cynllunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd ac mae eu barn a'u syniadau wedi cael eu hymgorffori'n dda yn y cynlluniau. Mae'r cyngor ysgol yn frwdfrydig ac ymroddgar ac yn ystyried materion pwysig yn aeddfed. Mae ei waith wedi arwain at ddatblygiadau gwerthfawr fel 'y ganolfan fwyta' y tu allan.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cynnig ystod eang o brofiadau dysgu difyr ar gyfer pob disgybl. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol wrth i ddisgyblion symud yn eu blaenau trwy'r ysgol. Yng nghyfnod allweddol 4, ac yn y chweched dosbarth, mae ystod gynhwysfawr o gyrsiau yn darparu profiadau buddiol ar gyfer pob disgybl. Mae'r rhain yn cynnwys opsiynau galwedigaethol gwerthfawr.

Mae gan yr ysgol strategaeth briodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, ac mae bron pob cynllun gwaith yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu agweddau ar y medrau hyn. Fodd bynnag, ni chaiff y strategaeth hon ei rhoi ar waith yn gyson ar draws pob pwnc. Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth effeithiol ar gyfer y disgyblion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd trwy raglenni ymyrraeth wedi'u cynllunio'n dda.

Ceir ystod eang ac amrywiol o gyfleoedd allgyrsiol, gan gynnwys clybiau chwaraeon, drama a cherddoriaeth. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i bob disgybl wella'u profiadau dysgu y tu allan i'w gwersi ffurfiol. Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau lleol a rhyngwladol arloesol ar gyfer disgyblion, gan gynnwys 'Monmouth's Got Talent', teithiau i Folifia a Moroco a theithiau chwaraeon i Wlad Groeg a Madrid.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant ac arferion Cymru. Mae cyfran y disgyblion sy'n dewis dilyn cymhwyster y cwrs llawn mewn Cymraeg lefel TGAU yn cynyddu. Caiff y dimensiwn Cymreig ei gynnwys yn dda mewn llawer o gynlluniau cwricwlwm ac mewn gweithgareddau ysgol fel yr Eisteddfod flynyddol, y Clwb Cymraeg ac ymweliadau preswyl i Langrannog.

Mae'r cwricwlwm integredig difyr yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r pwyllgor eco ymroddgar a brwdfrydig wedi cynllunio a hyrwyddo llawer o brosiectau cynaliadwyedd, fel menter yr ysgol, sef 'gwrth-droi ailgylchu' ar gyfer poteli a chaniau. Mae wedi cyfrannu awgrymiadau synhwyrol ar gynaliadwyedd at y cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd.

**Addysgu: Digonol**

Mae llawer o athrawon yn paratoi eu gwersi'n dda ac mae gwersi'n cynnwys nodau ac amcanion clir. Caiff y rhain eu rhannu gyda disgyblion ar ddechrau eu gwersi, a'u gwirio'n effeithiol ar y diwedd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'u disgyblion yn seiliedig ar barch a dealltwriaeth ar y ddwy ochr. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn rheoli ymddygiad yn gadarnhaol, gan wneud yn siŵr eu bod yn dangos diddordeb ac yn gallu gwneud cynnydd yn eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn frwdfrydig ynglŷn â'u pynciau ac yn fodelau rôl da ar gyfer eu disgyblion. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ac yn paratoi amrywiaeth o dasgau diddorol a phriodol i gynnal diddordeb disgyblion. Mae llawer o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau yn effeithiol i alluogi disgyblion i weithio'n unigol, mewn parau neu mewn grwpiau. Mae'r dulliau hyn yn annog disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu a meddwl annibynnol. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn datblygu medrau gwrando, darllen a siarad disgyblion yn dda. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio staff cymorth dysgu yn effeithiol i helpu a chynorthwyo disgyblion â gwahanol anghenion.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn paratoi tasgau digon heriol a diddorol. O ganlyniad, mae disgyblion yn colli diddordeb ac mae rhai ohonynt yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill. Nid yw lleiafrif o athrawon yn galluogi disgyblion i weithio'n ddigon annibynnol, maent yn rhoi gormod o gymorth ac arweiniad iddynt ac yn rhy barod i ateb eu cwestiynau. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn gosod disgwyliadau digon uchel, ac mae'r wers yn symud yn rhy araf. Felly, nid yw disgyblion yn cyflawni cystal ag y dylent, yn enwedig y disgyblion mwy abl a thalentog. Mae ansawdd ac effeithiolrwydd yr holi yn amrywio'n eang. O ganlyniad, nid yw'r holi yn galluogi pob un o'r athrawon i wybod a yw eu disgyblion yn deall eu gwaith neu'n gwneud digon o gynnydd.

Mae'r marcio yn gyfoes yn y rhan fwyaf o lyfrau. Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith ac yn nodi camgymeriadau sillafu a chamgymeriadau eraill yn gyson. Mae llawer o athrawon yn rhoi cyngor buddiol sy'n galluogi disgyblion i wella. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth yn amrywio'n helaeth o fewn, ac ar draws, meysydd pwnc. Nid yw lleiafrif o athrawon bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn gweithredu yn unol â'u cyngor, yn gwneud y cywiriadau a awgrymir ac yn cwblhau gwaith anorffenedig.

Mae gan yr ysgol system effeithiol i gasglu gwybodaeth am gynnydd disgyblion. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i olrhain perfformiad pob grŵp o ddisgyblion a chynllunio strategaethau ymyrraeth effeithiol.
Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn. Caiff rhieni wybodaeth gynhwysfawr a defnyddiol deirgwaith y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu gofal, arweiniad a chymorth o ansawdd uchel ar gyfer ei disgyblion. Mae ganddi systemau effeithiol a chynhwysfawr ar gyfer datblygiad iechyd a lles emosiynol myfyrwyr. Mae'n hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn dda trwy fentrau gwerthfawr, fel sefydlu cyngor bwyd yr ysgol. Gan eu bod yn cael eu cynnwys mewn cynllunio dewisiadau iach yn ffreutur yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn cael eu cinio yno. Mae strategaethau arloesol yr ysgol, trwy ddulliau adferol i gynorthwyo disgyblion a rhoi arweiniad iddynt, yn annog safonau uchel o ymddygiad ac agweddau cadarnhaol at ddysgu a pherthnasoedd.

Mae'r 'Cwricwlwm Integredig' cynlluniedig yn darparu fframwaith trosfwaol ac effeithiol ar gyfer yr ysgol i gynnig cyngor, arweiniad a chymorth i ddisgyblion ar ystod eang o faterion personol a chymdeithasol. Cyflwynir y ddarpariaeth hon yn effeithiol trwy berthnasoedd cadarn rhwng disgyblion a thiwtoriaid dosbarth. Mae'r cwricwlwm integredig yn datblygu cydwybod foesol, ysbrydol a chymdeithasol myfyrwyr yn dda.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o asiantaethau allanol i fodloni anghenion penodol disgyblion unigol. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, swyddogion cyswllt yr heddlu, asiantaethau cymorth cyffuriau, cymorth cwnsela a'r gwasanaeth troseddau ieuenctid. Mae anogwyr dysgu a chwnselwyr yn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol iawn. Mae'r strategaethau cymorth hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gyfradd presenoldeb uchel a lefel isel y gwaharddiadau.

Ceir cymorth da i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i nodi a bodloni anghenion penodol disgyblion ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol. Caiff trefniadau'r ysgol effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan y disgyblion hyn, yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Bodlonir yr holl ofynion statudol ar gyfer y broses adolygu flynyddol. Cynhelir cyfarfodydd dyddiol ac adolygiadau wythnosol gwerthfawr o gynnydd, sy'n helpu staff i ddarparu lefel uchel o ofal a chymorth. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn, ac fe gânt eu croesawu i'r ysgol i drafod unrhyw faterion neu bryderon a allai fod ganddynt.

Caiff cyngor ac arweiniad priodol eu rhoi gan yr ysgol mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, sy'n galluogi myfyrwyr i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysfawr a pharchus iawn lle caiff disgyblion eu hannog i gyflawni safonau uchel a bod yn oddefgar tuag at bobl eraill. Arwyddair yr ysgol yw "Dysgu Byw ein Bywydau" ("Learning to Lead our Lives"). Mae hyn yn amlwg yn agweddau goddefgar a chwrtais bron pob disgybl. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad gallu cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda iawn trwy fentrau fel 'Olrhain Cadw Golwg ar Fwlio' ('Bully Watch Tracking'), system cyfeillion a sesiynau seibiant. Caiff y diwylliant adferol ei ymgorffori'n gryf ar draws holl waith yr ysgol. Mae hyn yn arwain at gymuned iach lle caiff perthnasoedd cadarnhaol eu hadeiladu ar sail ymddiriedaeth a pharch. Mae disgyblion ac athrawon yn dangos lefelau uchel o ystyriaeth a gofal amdanyn nhw eu hunain a phobl eraill.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar waith i fonitro effeithiolrwydd ei pholisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r rhan fwyaf o staff yn trin disgyblion yn deg ac yn eu parchu. Defnyddir gwasanaethau llwyddiant yn effeithiol i ddathlu amrywiaeth a chyflawniad. Caiff adeiladau ac ardaloedd dysgu'r ysgol eu cynnal yn dda ar y cyfan. Er bod nifer o ardaloedd yn cael eu cynnal a'u trefnu'n dda, nid ydynt yn bodloni anghenion cymuned yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys mannau cyhoeddus fel y ganolfan adnoddau, y neuadd fwyta a mannau'r cwricwlwm a ddefnyddir ar gyfer drama, technoleg a cherddoriaeth. Mae bron pob ystafell ddosbarth yn darparu amgylchedd dysgu o ansawdd uchel ac ysgogol yn cynnwys arddangosfeydd myfyrwyr sy'n ennyn eu diddordeb ac yn cefnogi dysgu.

Mae gan yr ysgol ystod briodol o adnoddau dysgu i fodloni anghenion disgyblion ac athrawon. Ceir darpariaeth ddatblygedig ar gyfer technoleg gwybodaeth. Mae gan yr ysgol niferoedd digonol o gyfrifiaduron ac ystafelloedd technoleg gwybodaeth sy'n cynnwys adnoddau da. Mae gan yr ysgol bolisi effeithiol ar gyfer galluogi disgyblion i ddefnyddio'u dyfeisiau electronig eu hunain i gefnogi eu dysgu yn yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac yn gweithio'n dda gyda'i uwch dîm arweinyddiaeth a'r llywodraethwyr. Gyda'i gilydd, trwy ymgynghori manwl â staff a disgyblion, maent wedi gosod gweledigaeth strategol glir ar gyfer yr ysgol. Mae'n cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac yn canolbwyntio'n briodol ar wella safonau a bodloni anghenion disgyblion.

Mae gan y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth ffocws clir ar ble mae angen gwneud rhagor o gynnydd. Mae'r blaenoriaethau hyn, yn briodol, yn cynnwys codi safonau a gwella ansawdd yr addysgu. Maent wedi sefydlu'r systemau a strwythurau staff i gyflawni hyn. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael yr effaith lawn ddisgwyliedig eto. Mae'r gweinyddu effeithiol o ddydd i ddydd yn sicrhau amgylchedd trefnus iawn yn yr ysgol.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn darparu presenoldeb effeithiol o amgylch yr ysgol. Mae ei rolau a'i gyfrifoldebau yn glir ac wedi'u cysylltu'n agos â chyfeiriad strategol a diben craidd yr ysgol. Mae dosbarthiad cyfrifoldebau a dyraniadau amser i uwch arweinwyr gyflawni eu rolau yn effeithiol yn briodol. Mae strwythurau staffio wedi'u cynllunio'n dda ar bob lefel yn sicrhau cydbwysedd da o ran cyfrifoldebau. Mae disgrifiadau swydd yn gynhwysfawr a chyfoes ar y cyfan. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Caiff blaenoriaethau'r ysgol eu cyfleu yn llwyddiannus i bob un o'r staff. Mae system drefnus o gyfarfodydd gydag agendâu priodol a chofnodion manwl yn arwain at weithredu effeithiol mewn llawer o adrannau.

Mae'r ysgol wedi cryfhau ei systemau rheoli ac atebolrwydd. Mae'r strwythur rheolaeth llinell effeithiol yn rhoi trosolwg clir i uwch arweinwyr o gryfderau a meysydd y mae angen cymorth targedig arnynt. Mae cyfarfodydd bob pythefnos a

gynhelir rhwng arweinwyr canol a rheolwyr llinell yn darparu mecanwaith effeithiol i fonitro a herio gwaith pob cyfadran. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw lefel yr atebolrwydd bob amser yn ddigon trylwyr. O ganlyniad, nid yw cynnydd wedi bod yn ddigon cyson ar draws pob pwnc.

Mae llawer o arweinwyr canol yn cyflawni eu rolau'n llwyddiannus. Mae arweinwyr pwnc yn gweithio'n agos â'r arweinwyr cynnydd i fonitro cynnydd disgyblion, nodi anghenion cymorth a rhoi strategaethau ymyrraeth addas ar waith i'w cynorthwyo. Caiff arweinwyr canol gyfleoedd rheolaidd a phriodol i ddatblygu eu medrau arwain i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol a blaenoriaethau'r ysgol.

Mae proses yr ysgol ar gyfer rheoli perfformiad yn effeithiol. Caiff staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu eu cynnwys yn llawn yn y broses. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad proffesiynol pob un o'r staff. Caiff targedau perfformiad unigol eu cysylltu'n agos â gwella deilliannau disgyblion. Mewn llawer o achosion, mae gan aelodau staff dargedau sy'n heriol a mesuradwy. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw targedau'n ddigon mesuradwy na heriol. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â materion tanberfformio ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr ar gyfer cymorth trwy ddatblygiad proffesiynol priodol.

Mae'r corff llywodraethol yn gryfder yn yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda iawn ac wedi ymrwymo'n llawn i'w bywyd a'i hethos. Mae'r strwythurau pwyllgor strategol yn sicrhau bod llywodraethwyr yn craffu ar waith yr ysgol yn agos, ac fe gânt eu hysbysu'n rheolaidd am gynnydd. Maent yn arfarnu eu cyfraniad eu hunain trwy hunanarfarnu effeithiol. Caiff arweinwyr canol eu dwyn i gyfrif yn drylwyr am berfformiad cyffredinol eu cyfadran gan lywodraethwyr trwy gyfarfodydd adolygu cyfadrannau. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswydd yn effeithiol o ran herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad a chynorthwyo staff pan fo'n briodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddarlun manwl a chywir o berfformiad yr ysgol. Maent wedi datblygu prosesau hunanarfarnu gwerthfawr a systematig sydd wedi'u sefydlu'n dda ar draws yr ysgol. Mae pecyn canllawiau hunanarfarnu'r ysgol yn cynorthwyo uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn dda i lunio barnau cywir am berfformiad. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen fuddiol sydd wedi'i seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad manwl a chywir o berfformiad disgyblion.

Mae llawer o arweinwyr canol yn dadansoddi data perfformiad yn effeithiol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae rhai adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn rhy ddisgrifiadol. Nid ydynt yn cynnwys arfarniad clir o'r cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi a'r graddau y maent yn datblygu eu medrau.

Mae'r arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau ac olrhain disgyblion yn rheolaidd yn arwain at adroddiadau manwl ac arfarnol ar y cyfan. Mae'r rhain yn nodi cryfderau allweddol a meysydd i'w gwella yn gywir. Mae'r ysgol wedi gweithio'n effeithiol i safoni barnau arsylwadau gwersi. Fodd bynnag, mae mwyafrif y ffurflenni arsylwi gwersi yn aml yn ddisgrifiadol ac nid ydynt bob amser yn arfarnu'r effaith a gaiff y ddarpariaeth ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Nid yw'r broses hunanarfarnu bob amser yn

nodi nac yn mesur effaith camau gweithredu'n ddigon clir. O ganlyniad, nid yw'r ysgol wedi gwella safonau mewn rhai meysydd allweddol o gymharu â'r teulu o ysgolion.

Mae'r ysgol yn defnyddio deilliannau'r broses hunanarfarnu yn dda i baratoi cynlluniau datblygu strategol cryf a gosod targedau priodol ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn cynnwys targedau addas i gau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched, a gwella perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Caiff cynlluniau gweithredu adrannol eu halinio'n llwyddiannus â chynlluniau ysgol gyfan. Yn gyffredinol, mae hunanarfarnu a chynllunio gwelliant gan reolwyr canol ac uwch reolwyr yn gryf. Mae hyn wedi cyfrannu at y gwelliannau diweddar mewn llawer o ddangosyddion perfformiad.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol wedi galluogi'r ysgol i nodi ei chryfderau a'i gwendidau'n dda. Mae arweinwyr a rheolwyr wedi datblygu cynlluniau a thargedau priodol i ysgogi gwelliannau. Maent wedi gwella meysydd perfformiad allweddol yn llwyddiannus, gan gynnwys presenoldeb, lleihau gwaharddiadau a gwella safonau yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cyflawni'r gwelliannau gofynnol mewn safonau yng nghyfnod allweddol 4 eto o gymharu â'r rheiny yn y teulu neu gydag ysgolion tebyg ar sail cymhwyster disgyblion i gael prydau ysgol am ddim.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu perthnasoedd gweithio gwerthfawr gydag ystod eang o bartneriaid i ddarparu cyrsiau cydweithredol addas o fewn y cwricwlwm. Mae'r cysylltiadau hyn yn effeithiol o ran darparu profiadau dysgu cadarnhaol, a gwella lles, deilliannau a phresenoldeb disgyblion. Mae'r cysylltiadau hyn wedi cyfrannu at sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni trothwy lefel 1, a bron pob un ohonynt yn cyflawni trothwy lefel 2 ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith i fonitro darpariaeth a deilliannau ar y cyrsiau hyn.

Mae cyrsiau cydweithredol gyda choleg addysg bellach lleol, darparwyr dysgu yn y gwaith ac ysgolion lleol yn ymestyn yr opsiynau galwedigaethol sydd ar gael i ddisgyblion. Caiff y cyrsiau hyn eu holrhain a'u monitro'n dda gan anogwyr dysgu'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod y cyrsiau'n rhan fuddiol o raglen addysg ehangach ar gyfer dysgwyr addas, a'u bod yn arwain at ddeilliannau da.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod eang o asiantaethau allanol, fel y gwasanaeth ieuenctid. Mae gwaith partneriaeth ar ddulliau adferol gyda heddluoedd a 36 o ysgolion eraill wedi cyfrannu mewn modd cadarnhaol at ddiwylliant ac ethos yr ysgol. Mae'r gwaith hwn yn effeithio'n dda ar agweddau ac ymddygiad disgyblion.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau niferus a datblygedig â'r gymuned, er enghraifft gydag eglwysi ac elusennau lleol. Mae ystod eang o sefydliadau lleol yn cynnig profiadau gwerth chweil i ddisgyblion ar gyfer gwirfoddoli a chael profiad o fyd gwaith.

Caiff cysylltiadau ag ysgolion cynradd bwydo eu rheoli'n dda ac maent yn effeithiol. Mae staff a rheolwyr wedi gweithio'n dda gyda'u hysgolion cynradd partner i wella meysydd allweddol, fel lles disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd, y cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, olrhain data a datblygu'r cwricwlwm.

Mae partneriaeth â rhieni yn effeithiol. Mae'r ysgol yn ymgynghori'n rheolaidd â rhieni trwy'r Gymdeithas Ffrindiau, nosweithiau ymgynghori a holiaduron ar faterion fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac adeilad newydd yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol i gyflwyno'r cwricwlwm. Caiff bron pob un o feysydd y cwricwlwm eu haddysgu gan arbenigwyr pwnc. Mae pob aelod o staff yn elwa ar ddatblygiad proffesiynol parhaus effeithiol, sydd wedi'i gysylltu'n agos â rhaglen rheoli perfformiad yr ysgol. Caiff staff cymorth eu defnyddio'n dda ac maent yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer addysgu a dysgu ar draws yr ysgol.

Sefydlwyd grwpiau dysgu proffesiynol gwerth chweil a buddiol sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys llythrennedd a rhifedd, asesu, dwyieithrwydd ac anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid ydynt wedi effeithio'n ddigon cyson ar wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ym mhob pwnc.

Mae cynllunio ariannol yn effeithiol. Caiff y gyllideb ei hadolygu'n drylwyr bob wythnos, a chyflwynir manylion i'r pwyllgor cyllid a'r corff llywodraethol yn rheolaidd. Caiff ariannu cyfadrannol y pen a datblygu'r cwricwlwm eu rheoli'n dda ac maent wedi'u cysylltu'n glir â chynllun strategol yr ysgol.

Caiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei gynllunio a'i ddefnyddio'n dda. Mae deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella mewn llawer o ddangosyddion yn 2015 o gymharu â pherfformiad yn 2013. Mae lefelau presenoldeb y disgyblion hyn wedi gwella dros yr un cyfnod hefyd.

Ar sail perfformiad presennol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

**6794060 - Monmouth Comprehensive School**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1638 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.8 |
| Grŵp PYD | 1 (PYD<=10%) |

**Cyfnod allweddol 3**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015) | Cyfartaledd Cymru (2015) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | | |
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 9** | 258 | 269 | 242 | 259 | | |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 85.3 | 88.1 | 89.7 | 93.4 | 93.4 | 83.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 | | |
| **Saesneg** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | | | | | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 89.1 | 92.2 | 91.7 | 95.0 | 96.2 | 87.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 2 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 65.5 | 60.6 | 62.0 | 65.3 | 72.2 | 52.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 2 | | |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | | | | | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | . | . | . | . | . | 90.9 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | . | . | . | . | . | 56.1 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Mathemateg** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | | | | | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 91.9 | 93.7 | 94.2 | 94.6 | 95.2 | 88.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 2 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 65.9 | 66.5 | 71.5 | 75.3 | 78.0 | 59.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 2 | | |
| **Gwyddoniaeth** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | | | | | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 90.7 | 95.5 | 96.3 | 96.1 | 97.4 | 91.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 4 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 57.8 | 51.7 | 61.2 | 71.8 | 76.8 | 58.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 2 | | |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

**6794060 - Monmouth Comprehensive School**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1638 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.8 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=10%) |

**Cyfnod allweddol 4**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015**) | Cyfartaledd Cymru (2015**) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015** | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed** | 254 | 266 | 261 | 272 | | |
| **Canran y disgyblion 15 oed sydd:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 61.8 | 57.1 | 70.9 | 68.4 | 74.9 | 57.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 2 | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2** | 84.6 | 83.5 | 93.5 | 98.9 | 92.4 | 83.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 1 | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 1** | 97.2 | 96.6 | 97.7 | 100.0 | 98.6 | 94.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 1 | | |
| **Wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)** | 59.1 | 54.9 | 68.6 | 64.7 | 72.7 | 54.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 3 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl** | 361.3 | 354.8 | 370.7 | 370.6 | 375.3 | 342.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio a mwy fesul disgybl** | 356.3 | 349.7 | 366.8 | 366.2 | 372.4 | 337.7 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A** | 26.0 | 16.9 | 24.9 | 17.3 | 28.9 | 16.5 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg** | 75.6 | 66.9 | 79.3 | 77.9 | 82.8 | 68.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 3 | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf** | . | . | . | . | . | 75.1 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg** | 66.9 | 68.4 | 77.8 | 76.5 | 81.3 | 64.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 2 | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth** | 72.4 | 77.1 | 85.8 | 93.8 | 92.8 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 2 | | |

Mae'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.
Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd yr oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.
. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

** Mae canlyniadau arholiadau cyfnod allweddol 4 ar gyfer 2015 yn rhai dros dro.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

**6794060 - Monmouth Comprehensive School**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1638 |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.8 |
| Grŵp PYD | 1 (PYD<=10%) |

**Cyfnod allweddol 4 - perfformiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015**) | Cyfartaledd Cymru (2015**) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015** | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim** | 14 | 22 | 17 | 23 | | |
| **Canran y disgyblion 15 oed sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 35.7 | 27.3 | 41.2 | 39.1 | 41.9 | 31.3 |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2** | 42.9 | 86.4 | 70.6 | 95.7 | 76.1 | 68.2 |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 1** | 78.6 | 95.5 | 88.2 | 100.0 | 94.9 | 89.2 |
| **Wedi cyflawni’r dangosydd pwnc craidd (DPC)** | 28.6 | 27.3 | 41.2 | 34.8 | 40.2 | 28.8 |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi’i chapio fesul disgybl** | 280.6 | 329.2 | 324.8 | 346.4 | 327.1 | 302.1 |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi’i chapio a mwy fesul disgybl** | 274.9 | 323.6 | 319.9 | 340.6 | 322.1 | 295.1 |
| **Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A** | 14.3 | 9.1 | 11.8 | 8.7 | 4.3 | 4.3 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg** | 42.9 | 50.0 | 52.9 | 52.2 | 56.4 | 44.7 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf** | . | . | . | . | . | 51.3 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg** | 42.9 | 50.0 | 41.2 | 56.5 | 53.8 | 38.9 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth** | 42.9 | 72.7 | 58.8 | 87.0 | 82.9 | 73.5 |

Mae’n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.
Mae’n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau’r flwyddyn academaidd.
Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi’i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio’r 8 canlyniad gorau o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.
. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.
** Mae canlyniadau arholiadau cyfnod allweddol 4 ar gyfer 2015 yn rhai dros dro.

**6794060 - Monmouth Comprehensive School**

Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn y chweched dosbarth 344

**Cyfnod allweddol 5**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015**) | Cyfartaledd Cymru (2015**) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015** | | |
| **Nifer y disgyblion 17 oed** | 137 | 141 | 160 | 133 | | |
| **Canran y disgyblion 17 oed sydd:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni 3 A*-A mewn arholiadau Safon Uwch neu gyfwerth** | 13.2 | 6.1 | 10.3 | 7.3 | 10.7 | 7.9 |
| **Wedi cyflawni 3 A*-C mewn arholiadau Safon Uwch neu gyfwerth** | 51.2 | 44.7 | 60.7 | 60.2 | 79.2 | 67.5 |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 3** | 97.7 | 94.7 | 96.6 | 95.1 | 97.6 | 96.9 |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog fesul disgybl** | 705.6 | 740.5 | 773.0 | 766.3 | 985.4 | 787.2 |

Yn cynnwys pob cymhwyster cydnabyddedig yng Nghymru.
Mae’n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 17 oed, mewn ysgolion a gynhelir, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau’r flwyddyn academaidd.
Mae’r sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog ar gyfer disgyblion 17 oed yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-18 yng Nghymru.
. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.
** Mae canlyniadau arholiadau cyfnod allweddol 5 ar gyfer 2015 yn rhai dros dro.

More information is available on the Welsh Government website, My Local School, in the link below.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?lang=eng

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 385 | 150<br>39% | 218<br>57% | 15<br>4% | 2<br>1% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 44% | 52% | 4% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 385 | 60<br>16% | 234<br>61% | 81<br>21% | 10<br>3% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 26% | 57% | 14% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 383 | 139<br>36% | 186<br>49% | 51<br>13% | 7<br>2% | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 38% | 52% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 379 | 61<br>16% | 210<br>55% | 93<br>25% | 15<br>4% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 24% | 56% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 384 | 172<br>45% | 165<br>43% | 36<br>9% | 11<br>3% | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 45% | 9% | 2% | |
| I am doing well at school | 385 | 119<br>31% | 245<br>64% | 17<br>4% | 4<br>1% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 380 | 116<br>31% | 233<br>61% | 25<br>7% | 6<br>2% | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 386 | 49<br>13% | 194<br>50% | 94<br>24% | 49<br>13% | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 384 | 116<br>30% | 199<br>52% | 58<br>15% | 11<br>3% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 45% | 46% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 383 | 34<br>9% | 210<br>55% | 115<br>30% | 24<br>6% | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 384 | 92<br>24% | 203<br>53% | 70<br>18% | 19<br>5% | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 29% | 50% | 16% | 4% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 383 | 59<br>15% | 193<br>50% | 102<br>27% | 29<br>8% | Mae’r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni’n eu hawgrymu. |
| | | 17% | 53% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 383 | 135<br>35% | 230<br>60% | 12<br>3% | 6<br>2% | Rwy’n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 35% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 384 | 115<br>30% | 217<br>57% | 44<br>11% | 8<br>2% | Mae’r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 36% | 54% | 9% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 386 | 135<br>35% | 201<br>52% | 38<br>10% | 12<br>3% | Mae’r staff yn fy mharchu i a’m cefndir. |
| | | 37% | 53% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 381 | 111<br>29% | 226<br>59% | 37<br>10% | 7<br>2% | Mae’r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 36% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 132 | 33<br>25% | 68<br>52% | 21<br>16% | 10<br>8% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 29% | 51% | 16% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 109 | 18<br>17% | 58<br>53% | 22<br>20% | 11<br>10% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 27% | 50% | 16% | 7% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 80 | 47 | 26 | 4 | 3 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 59% | 32% | 5% | 4% | | |
| | | 44% | 50% | 5% | 1% | | |
| My child likes this school. | 82 | 46 | 30 | 5 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 56% | 37% | 6% | 1% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 81 | 55 | 23 | 3 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 68% | 28% | 4% | 0% | | |
| | | 51% | 45% | 4% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 81 | 34 | 40 | 5 | 2 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 42% | 49% | 6% | 2% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 75 | 15 | 46 | 11 | 3 | 7 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 20% | 61% | 15% | 4% | | |
| | | 25% | 60% | 12% | 3% | | |
| Teaching is good. | 78 | 21 | 50 | 4 | 3 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 27% | 64% | 5% | 4% | | |
| | | 35% | 59% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 78 | 38 | 32 | 7 | 1 | 4 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 49% | 41% | 9% | 1% | | |
| | | 52% | 46% | 2% | 1% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 76 | 18 | 41 | 11 | 6 | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 24% | 54% | 14% | 8% | | |
| | | 33% | 56% | 9% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 78 | 27 | 40 | 8 | 3 | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 35% | 51% | 10% | 4% | | |
| | | 36% | 52% | 10% | 3% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 74 | 21 | 42 | 10 | 1 | 8 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 28% | 57% | 14% | 1% | | |
| | | 35% | 56% | 8% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 81 | 38 | 35 | 6 | 2 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 47% | 43% | 7% | 2% | | |
| | | 43% | 53% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 66 | 15 | 38 | 7 | 6 | 16 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 23% | 58% | 11% | 9% | | |
| | | 37% | 52% | 8% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 80 | 28 | 41 | 8 | 3 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 35% | 51% | 10% | 4% | | |
| | | 35% | 51% | 12% | 3% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 81 | 43 | 30 | 5 | 3 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 53% | 37% | 6% | 4% | | |
| | | 43% | 49% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 65 | 14 | 44 | 4 | 3 | 16 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 22% | 68% | 6% | 5% | | |
| | | 31% | 56% | 11% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 79 | 38 | 32 | 8 | 1 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 48% | 41% | 10% | 1% | | |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 53 | 16 | 30 | 6 | 1 | 28 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 30% | 57% | 11% | 2% | | |
| | | 32% | 55% | 10% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 78 | 40 | 35 | 2 | 1 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 51% | 45% | 3% | 1% | | |
| | | 37% | 51% | 10% | 2% | | |
| The school is well run. | 78 | 41 | 29 | 6 | 2 | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 53% | 37% | 8% | 3% | | |
| | | 43% | 50% | 5% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Huw Collins | Arolygydd Cofnodol |
| Karen Newby-Jones | Arolygydd Tîm |
| Alan Edwards | Arolygydd Tîm |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| William Gwyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Lowri Jones | Arolygydd Tîm |
| Alison Huckle | Arolygydd Lleyg |
| Mair Herbert | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tim Bird | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

### Termau cyfnod allweddol 3

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 3 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 7 yn bennaf).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg [1]
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 5 a disgwylir i’r disgyblion mwy abl gyrraedd lefel 6 neu uwch.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 5) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

### Termau cyfnod allweddol 4 a’r chweched dosbarth

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad nhw â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys naw ysgol arall y mae cyfrannau tebyg o ddisgyblion: yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy’n byw mewn 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg fel iaith ychwanegol iddynt a’u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â phum cymhwyster TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster TGAU gradd A* i C. |

[1] Nid yw’r dangosydd hwn yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

| | |
|---|---|
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg[1] neu Saesneg a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phum cymhwyster TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu pum cymhwyster TGAU graddau A* i C neu gyfwerth. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster Safon Uwch gradd A*-E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch gradd A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hyn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu’n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi’i chapio | Mae hyn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Grwpiau meincnodi | Caiff ysgolion eu rhoi mewn grwpiau gyda’i gilydd yn unol â chyfran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn cymharu eu perfformiad nhw â pherfformiad ysgolion tebyg mewn dangosyddion gwahanol. |
| Deilliannau wedi’u modelu | Rhagfynegiad o berfformiad cymedrig ysgol yw hyn, yn seiliedig ar y berthynas ystadegol rhwng cyfran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dangosydd penodol. |